OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 1796 (Cy.172)

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2010

Gwnaed - - - -	*12 Gorffennaf 2010*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*13 Gorffennaf 2010*
Yn dod i rym - -	*17 Awst 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1) ac (1A) a 36(a) o Ddeddf Amrywogethau a Hadau Planhigion 1964(**1**) sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflawni ymgynghoriad yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) 2010. Deuant i rym ar 17 Awst 2010 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) 2006(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 4 o Atodlen 1, rhodder—

> "**4.**—(1) Ni cheir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd cyn-sylfaenol o unrhyw ddosbarth oni fydd y swyddog awdurdodedig wedi'i fodloni bod y tir y tyfir, neu y tyfwyd, y tatws hadyd arno yn dir—

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16(1), a mewnosodwyd adran 16(1A), gan adran 4 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p.68) a pharagraff 5 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno. *Gweler* adran 38(1) am ddiffiniad "the Minister".

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol gan erthygl 2 o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**3**) O.S. 2006/2929 (Cy.264) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1063 (Cy.112) a 2009/2980 (Cy.259).

(a) y canfuwyd, o ganlyniad i brawf pridd a wnaed gan Weinidogion Cymru cyn plannu'r cnwd, nad yw wedi ei halogi â'r Llyngyr Tatws (rhywogaeth Globodera sy'n heintio tatws);

(b) nad yw wedi ei ddynodi o dan Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 fel tir wedi ei halogi â phoblogaeth Ewropeaidd o Lyngyr Tatws; ac

(c) nas defnyddiwyd ar gyfer tyfu tatws ar unrhyw adeg yn ystod y 7 mlynedd yn union cyn plannu'r cnwd.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1)(a) yn gymwys yn achos tatws hadyd a dyfir mewn cyfrwng di-bridd.".

(3) Yn lle paragraff 7 o Atodlen 1, rhodder—

"**7.**—(1) Ni cheir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd sylfaenol o unrhyw ddosbarth, oni fydd y swyddog awdurdodedig wedi'i fodloni bod y tir y tyfir, neu y tyfwyd, y tatws hadyd arno yn dir—

(a) y canfuwyd, o ganlyniad i brawf pridd a wnaed gan Weinidogion Cymru cyn plannu'r cnwd, nad yw wedi ei halogi â'r Llyngyr Tatws (rhywogaeth Globodera sy'n heintio tatws);

(b) nad yw wedi ei ddynodi o dan Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 fel tir wedi ei halogi â phoblogaeth Ewropeaidd o Lyngyr Tatws; ac

(c) nas defnyddiwyd ar gyfer tyfu tatws ar unrhyw adeg yn ystod y 5 mlynedd yn union cyn plannu'r cnwd.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1)(a) yn gymwys yn achos tatws hadyd a dyfir mewn cyfrwng di-bridd.".

(4) Yn lle paragraff 10 o Atodlen 1, rhodder—

"**10.**—(1) Ni cheir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd ardystiedig oni fydd y swyddog awdurdodedig wedi'i fodloni bod y tir y tyfir, neu y tyfwyd, y tatws hadyd arno yn dir–

(a) y canfuwyd, o ganlyniad i brawf pridd a wnaed gan Weinidogion Cymru cyn plannu'r cnwd, nad yw wedi ei halogi â'r Llyngyr Tatws (rhywogaeth Globodera sy'n heintio tatws);

(b) nad yw wedi ei ddynodi o dan Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 fel tir wedi ei halogi â phoblogaeth Ewropeaidd o Lyngyr Tatws; ac

(c) nas defnyddiwyd ar gyfer tyfu tatws ar unrhyw adeg yn ystod y 4 mlynedd yn union cyn plannu'r cnwd.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1)(a) yn gymwys yn achos tatws hadyd a dyfir mewn cyfrwng di-bridd.".

(5) Yn Atodlen 3, Rhan II—

(a) yng ngholofnau 3 a 4, yn lle'r symbol "–" gyferbyn ag "Y Clwy Tatws (Phytophthora infestans (Mont.) de Bary)", rhodder y symbol ")";

(b) yng ngholofn 3, yn lle "3.0%" mewn perthynas â Grwpiau III, IV a V yng ngholofn 1, rhodder "5.0%"; ac

(c) yng ngholofn 4, yn lle "4.0%" mewn perthynas â Grwpiau II, III, IV a V yng ngholofn 1, rhodder "5.0%".

(6) Yn Atodlen 3, Rhan III—